Bodlondeb
Conwy
LL32 8DU
(01492) 574000
Cyf/Ref: CCBC-035102

**Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Conwy (Ffordd Geirionydd Trefriw) Gorchymyn (Gwahardd Stopio - Clirffordd) 2021**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn bwriadu gwneud Gorchymyn dan Adrannau 1 a 2 Deddf Rheoli Trafnidiaeth Ffyrdd 1984, a'i effaith fydd gwahardd cerbydau rhag stopio neu aros ar unrhyw adeg ar y darn ffordd a nodir yn yr Atodlen isod (Clirffordd 24 awr rhwng 1 Ebrill i 30 Medi).

Bydd y Gorchymyn arfaethedig yn darparu eithriadau a fydd yn caniatáu aros i bwrpas dod allan o gerbyd, mynd i mewn i gerbyd, llwytho, dadlwytho a gwaith cynnal a chadw, atgyweirio, ac yn y blaen.

Gellir archwilio copi o'r Gorchymyn, ynghyd â map sydd yn dangos y darnau ffordd y mae'r Gorchymyn arfaethedig yn berthnasol iddynt, a datganiad o resymau'r Cyngor dros wneud y Gorchymyn ar wefan y Cyngor. Gallwch wneud cais am ddogfennau papur trwy ffonio 01492 575337.

Dylid anfon unrhyw wrthwynebiadau i'r Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â'r rhesymau drostynt, ar bapur at yr Adran Draffig, Yr Amgylchedd Ffyrdd a Chyfleusterau, Blwch Post 1 Conwy LL30 9GN neu at traffig@conwy.gov.uk erbyn 20 Awst 2021

**Atodlen 1 –** Clirffordd 24 awr rhwng 1 Ebrill i 30 Medi

| | |
|---|---|
| **Ffordd Geirionydd Llanrychwyn** | O bwynt 10 metr i'r dwyrain o ffordd fynediad i Tal-y-Llyn at bwynt 30 metr i'r gorllewin o'r ffordd fynediad i Pen-yr-Allt. |

Dyddiedig 29 Gorffennaf 2021

Rhun ap Gareth
**Pennaeth y Gyfraith a Llywodraeth**